

# Fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan: papur trafod

Awst 2019

## Rhagair y Cadeirydd

Drwy gydol ein hystyriaeth o'r goblygiadau i Gymru o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, rydym wedi ymgysylltu â'r drafodaeth ynghylch yr angen am fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan i ddisodli rhai meysydd sy'n cael eu llywodraethu ar hyn o bryd gan bolisiau cyffredin yr UE gyfan.

Drwy ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, a'm gwaith i ar y Fforwm Rhyng-seneddol ar Brexit, rydym wedi ceisio cael darlun cliriach o'r hyn y mae llywodraethau'r Deyrnas Unedig yn ei ragweld ar gyfer y fframweithiau hyn fel y gallwn nodi'r hyn y gallai fod angen i'r Cynulliad ei wneud i baratoi ar gyfer craffu arnynt wrth iddynt ymddangos.

Ar ôl i Lywodraeth y DU gyhoeddi ei *Dadansoddiad o Fframweithiau Diwygiedig* ym mis Ebrill 2019, penderfynwyd edrych ar y rhaglen waith hon yn fanylach.

Gwnaethom hyn drwy ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit yn ysgrifenedig ac mewn cyfarfod pwyllgor, wedi'i ddilyn gan sesiwn gydag arbenigwyr o bob cwr o'r DU i gael rhai safbwyntiau allanol.

At hynny, rydym wedi elwa ar drafodaethau anffurfiol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a gwaith ein swyddogion ein hunain wrth gasglu'r wybodaeth sydd ar gael.

Er mwyn tynnu ynghyd yr hyn a ddysgwyd dros y misoedd diwethaf, ystyriwyd papur yn ein cyfarfod ar 17 Mehefin 2019.

Yna, cyflwynais y papur hwn i Fforwm y Cadeiryddion ar 3 Gorffennaf 2019 lle trafodwyd ef gyda'r Llywydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad.



Er bod y papur hwn wedi'i ddrafftio fel dogfen fewnol, rydym wedi penderfynu ei gyhoeddi fel adroddiad gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Cytunwyd i wneud hynny ar sail gwneud cyfraniad at y ddeialog barhaus ynghylch sut beth fyddai'r fframweithiau hyn a sut y gallem ni, yn y Cynulliad, graffu arnynt.

Wrth gyhoeddi'r papur hwn, rydym yn gobeithio bwrw ymlaen â thrafodaeth ynghylch y maes gwaith hwn ac rydym yn croesawu sylwadau neu ymatebion wrth inni barhau i fireinio ein dealltwriaeth o'r newid newydd a sylweddol hwn i lywodraethu y DU gyfan a'r her graffu y mae'n ei pheri i ni a'r deddfwrfeydd eraill ledled y Deyrnas Unedig.

Mae ein gwaith ar ddatblygu opsiynau ar gyfer craffu ar fframweithiau yn y dyfodol yn parhau, a gobeithiwn gyhoeddi adroddiad dilynol yn yr hydref.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit a'i swyddogion am eu hymgysylltiad adeiladol â'r Pwyllgor hyd yma ar y maes gwaith hwn.

Diolch hefyd i'r Athro Jo Hunt, yr Athro Michael Keating, Hedydd Phylip ac Akash Paun am eu cyfraniad i'n sesiwn ar 17 Mehefin 2019.

David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

*Os hoffech ymateb i'r papur hwn, yna cysylltwch â ni yn:*

[SeneddMADY@cynulliad.cymru](mailto:SeneddMADY@cynulliad.cymru)

## Trosolwg

Mae fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan yn her graffu newydd sy'n deillio o broses Brexit.

Ond beth yn union yw'r fframweithiau hyn? A pham mae angen i bwyllgorau'r Cynulliad eu hystyried?

Nod y papur hwn yw rhoi trosolwg o beth yw fframweithiau a beth y gallai fod angen i bwyllgorau'r Cynulliad ei ystyried o ran craffu.

## Crynodeb

### Pam mae angen fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan arnom?

**1.** Ar ôl Brexit, i atal unrhyw rwystrau i fasnachu rhag dod i'r amlwg rhwng gwledydd y DU, ac i ganiatáu i'r DU gynnig rhywfaint o sicrwydd i bartneriaid masnachu posibl yn y dyfodol, mae llywodraethau'r DU yn ceisio creu fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan i ddisodli rhai o'r fframweithiau a bennir ar hyn o bryd gan yr UE.

### Sut beth fydd y fframweithiau?

**2.** Bydd y fframweithiau'n wead cymhleth o allbynnau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a allai gynnwys Biliau, is-ddeddfwriaeth, memoranda cyd-ddealltwriaeth, a/neu goncordatiau.

### Beth yw'r goblygiadau i graffu?

**3.** Mae angen swyddogaeth oruchwyllo ganolog, i sicrhau bod meta-oblygiadau cydberthnasau lluosog a chymhleth a ddatblygir gan y broses fframweithiau yn cael eu deall.

**4.** Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth unigol sydd yn y sefyllfa orau i graffu ar oblygiadau manwl sefydlu fframweithiau o fewn eu cylchoedd gwaith a chwestiynau cysylltiedig o ran penderfyniadau rhynglywodraethol.

### Beth sydd angen ei wneud?

**5.** Efallai y bydd pwyllgorau'r Cynulliad am ddechrau gwaith i fapio gweithgarwch fframwaith yn eu meysydd cyfrifoldeb.

**6.** Efallai y bydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ddatblygu ffordd o feddwl am ddull craffu.

## 1. Pam mae angen fframweithiau arnom?

**7.** Mae ystod sylweddol o feysydd polisi, o daliadau amaethyddol i sylweddau peryglus, sydd wedi'u datganoli yn y DU ar hyn o bryd, yn eistedd o fewn fframweithiau deddfwriaethol yr UE i sicrhau nad yw polisiau mewn Aelod-

wladwriaethau yn dargyfeirio i'r graddau eu bod yn creu gwyradau yn y farchnad gyffredin a'r safonau y cytunwyd arnynt.

- 8.** Os dymunwch, mae'r fframweithiau hyn yno i sicrhau chwarae teg tra'n caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn polisi i fodloni amgylchiadau lleol.
- 9.** Ers dyfodiad datganoli, mae meysydd polisi datganoledig a gwmpesir gan fframweithiau'r UE wedi gweithredu o fewn y paramedrau a bennwyd ym Mrwsel. Mae hyn wedi caniatáu dargyfeirio o ran polisi ar draws gwledydd cyfansoddol y DU, ond o fewn set gyson o reolau cyffredin.
- 10.** Ar ôl ymadael â'r UE, ar ôl diwedd y cyfnod pontio, bydd fframweithiau'r UE yn peidio â bod yn gymwys yn y DU.
- 11.** Er mwyn atal unrhyw rwystrau i fasnachu rhag dod i'r amlwg rhwng gwledydd y DU, ac er mwyn caniatáu i'r DU gynnig rhywfaint o sicrwydd i bartneriaid masnachu posibl yn y dyfodol, mae llywodraethau'r DU wedi cytuno i ystyried creu fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan i ddisodli'r fframweithiau a bennir ar hyn o bryd gan yr UE.
- 12.** Yn y lle cyntaf, ceisiodd Llywodraeth y DU y modd i osod y fframweithiau hyn ar Ogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru drwy Fil yr UE (Ymadael) (Deddf yr UE (Ymadael) 2018 erbyn hyn). Yn sgil gwrthwynebiad sylweddol, diwygiodd Llywodraeth y DU y Bil mewn ffordd a oedd yn darparu mecanwaith ar gyfer rhewi meysydd cymhwysedd datganoledig gan ddefnyddio is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y DU, ynghyd â chytundeb rhynglywodraethol wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyda'r nod o helpu i ddatblygu fframweithiau lle bo angen.
- 13.** Mae'n bwysig myfyrio, er bod Llywodraeth yr Alban wedi ymgysylltu â'r rhaglen waith rhynglywodraethol i ddatblygu fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan, gwrthododd Senedd yr Alban roi caniatâd ar gyfer agweddau datganoledig ar Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018 ac nid yw Llywodraeth yr Alban yn llofnodwr i'r cytundeb rhynglywodraethol.
- 14.** Ers mis Hydref 2017, mae gwaith rhynglywodraethol ar ddatblygu fframweithiau wedi bod yn mynd rhagddo. Mae'r llywodraethau wedi cytuno ar set o egwyddorion i ategu'r dull gweithredu ac mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adroddiadau cynnydd, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) ym mis Tachwedd 2018 a mis Mawrth 2019. Ym mis Ebrill 2019 cyhoeddwyd Dadansoddiad o Fframweithiau Diwygiedig.

## Yr egwyddorion

**15.** Mae llywodraethau'r DU wedi cytuno y bydd fframweithiau cyffredin yn cael eu sefydlu lle bo angen er mwyn:

- galluogi marchnad fewnol y DU i weithredu, ond gan gydnabod gwahaniaethau polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU drafod cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith;
- galluogi rheoli adnoddau cyffredin;
- gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion sydd ag elfen drawsffiniol; a
- gwarchod diogelwch y DU<sup>1</sup>.

**16.** At hynny, mae'r llywodraethau wedi cytuno y bydd fframweithiau'n parchu'r setliadau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig, ac felly byddant yn:

- seiliedig ar gonfensiynau ac arferion sefydledig, gan gynnwys na fydd cymhwysedd y sefydliadau datganoledig fel arfer yn cael ei addasu heb eu caniatâd;
- cynnal, fel isafswm, hyblygrwydd cyfatebol i deilwra polisiâu i anghenion penodol pob tiriogaeth fel y mae rheolau cyfredol yr UE yn ei gynnig; ac yn
- arwain at gynnydd sylweddol yn y pwerau gwneud penderfyniadau ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig.

## 2. Sut beth fydd y fframweithiau?

**17.** Un o'r agweddau mwyaf anodd wrth ystyried fframweithiau yw ceisio rhagweld sut y byddant yn edrych. Mae hyn oherwydd y byddant yn amrywio yn eu hadeiladwaith.

---

<sup>1</sup> Cytunwyd ar yr egwyddorion yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar 17 Hydref 2017.



- 18.** Bydd fframweithiau sy'n gofyn am ddeddfwriaeth, fframweithiau a sefydlir drwy ddulliau anneddfwriaethol, a fframweithiau sy'n gofyn am elfennau o'r ddau ddull.
- 19.** O ran deddfwriaeth, gallai hyn fod yn ddeddfwriaeth sylfaenol - naill ai wedi'i gwneud ar yr un pryd yn y deddfwrfeydd priodol neu yn San Steffan gan ddefnyddio'r confensiwn cydsyniad deddfwriaethol.
- 20.** Gellid defnyddio is-ddeddfwriaeth hefyd, gan gynnwys rheoliadau a wnaed o dan adran 109A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i cyflwynwyd gan adran 12 o Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018) i "rewi" meysydd cymhwysedd datganoledig dros dro.
- 21.** O ran fframweithiau anstatudol, neu agweddau ar fframweithiau, bydd y rhain yn gytundebau rhynglywodraethol ysgrifenedig ar ffurf concordatiau neu femoranda cyd-ddealltwriaeth. Byddent yn cynnwys manylion am drefniadau gwneud penderfyniadau, gweithdrefnau datrys anghydfodau, mecanweithiau adolygu a diweddarau, a strwythurau lefel swyddogol a gwleidyddol ar gyfer llywodraethu'r Fframwaith.
- 22.** Felly yr ateb i'r cwestiwn o "sut beth fydd y fframweithiau?" yw y byddant yn wead cymhleth o allbynnau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol h.y. Biliau, Offerynnau Statudol, memoranda cyd-ddealltwriaeth a/neu goncordatiau.
- 23.** Mae fframwaith, a gaewyd yn ddiweddar ar gyfer ymgynghoriad, ar brisio carbon. Mae ar gael [ar wefan Llywodraeth y DU](#).
- 24.** Cyhoeddwyd [diweddariad arall ar fframweithiau gan Lywodraeth y DU ar 3 Gorffennaf 2019](#). Roedd yn cynnwys [fframwaith amlinellol yn ymwneud â Chynllunio ar gyfer Sylweddau Peryglus](#).
- 25.** Mae Bil Amaethyddiaeth a Bil Pysgodfeydd y DU yn cynnwys darpariaethau y gellid eu hystyried i gynnwys elfennau o fframweithiau, neu sy'n darparu pwerau a fyddai'n galluogi darparu agweddau deddfwriaethol ar fframweithiau drwy is-ddeddfwriaeth.

### 3. Pa feysydd polisi y bydd y fframweithiau yn eu cwmpasu?

**26.** Ar hyn o bryd, mewn perthynas â setliad datganoli Cymru, nodwyd 70 o feysydd polisi y gallai fod angen fframweithiau arnynt.<sup>2</sup>

**27.** O'r rheini, nodwyd 27 o feysydd eisoes nad oes angen fframwaith ffurfiol arnynt, nodwyd 22 fel rhai y mae angen fframwaith anneddfwriaethol arnynt a nodwyd 21 fel rhai y mae angen fframwaith deddfwriaethol arnynt.

**28.** O safbwynt pwyllgorau'r Cynulliad, mae mwyafrif y fframweithiau yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig - tua 60 y cant.



<sup>2</sup> Llywodraeth y DU, [Dadansoddiad o Fframweithiau Diwygiedig](#), Ebrill 2019

<sup>3</sup> Mae "ESS" yn cyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ac mae "NHAMG" yn cyfeirio at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

**29.** Darperir rhestr lawn o'r meysydd polisi yn atodiad A.

**30.** Mae hefyd amrywiaeth o faterion trawsbynciol sy'n cael eu datblygu o fewn y rhaglen fframweithiau neu ochr yn ochr â hwy, gan gynnwys:

- y rhaglen deddfwriaethol;
- trefniadau llywodraethu (gan gynnwys adolygu cysylltiadau rhynglywodraethol);
- trafodaethau marchnad fewnol y DU (drwy gyfrwng Pedairochrog Gweinidogol newydd ar Fusnes a Diwydiant); a
- chyllid.

## 4. Y materion i'r Cynulliad

### Yr effaith ar ddatganoli

**31.** Bydd cytuno â fframweithiau, o leiaf, yn cyfyngu ar opsiynau Llywodraeth Cymru o fewn y maes polisi a gwmpesir. Bydd angen ystyried i ba raddau y mae'r cyfyngiad hwn yn adlewyrchu'r hyn a sefydlir ar hyn o bryd gan fframweithiau'r UE.

**32.** Yn achos fframweithiau deddfwriaethol, gellid cwtagi ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**33.** Bydd penderfyniadau sylfaenol o'r fath yn gofyn am waith craffu gan y Cynulliad ac, yn achos fframweithiau deddfwriaethol, cydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad.

### Tryloywder ac atebolrwydd penderfyniadau rhynglywodraethol

**34.** Mae strwythurau cyfredol y Cydbwyllgor Gweinidogion, ochr yn ochr â Fforymau Gweinidogol sydd newydd eu ffurfioli, yn darparu'r strwythur lefel Gweinidogol ar gyfer trafod, cytuno a llywodraethu'r fframweithiau yn y dyfodol.

**35.** Bydd pob fframwaith yn cael ei ategu gan femorandwm cyd-ddealltwriaeth neu goncordat sy'n darparu telerau'r fframwaith, ei weithrediad a'r modd o ddatrys anghydfodau.

**36.** Hyd yma, mae'r broses o ddatblygu'r fframweithiau hyn wedi bod yn aneglur ac yn anodd craffu arni.



**37.** Mae tensiwn posibl rhwng y rôl goruchwyllo rhaglenni mwy canolog sy'n cael ei chwarae gan y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) a'r dull mwy gwasgaredig o ddatblygu fframweithiau ar lefel portffolio drwy gyfrwng pedairochrog Gweinidogol (a ffurfiolwyd yn ddiweddar fel fforymau Gweinidogol).

**38.** Mae angen i'r Cynulliad ystyried sut y gall graffu ar y prosesau gwneud penderfyniadau hyn.

**39.** Mae angen i'r Cynulliad hefyd ystyried sut y mae'n cydbwysu'r angen i ymchwilio i fanylion polisi tra'n cadw llygad ar effaith gyffredinol y rhaglen fframweithiau ar gyfer y setliad datganoli a llywodraethu yn y DU yn fwy cyffredinol.

### Goblygiadau ariannol

**40.** Efallai y bydd costau ynghlwm wrth ddatblygu a chynnal trefniadau fframwaith, a gallai fod goblygiadau i faint o ddisgresiwn sydd gan Lywodraeth Cymru i wario a/neu drethu mewn rhai meysydd.

**41.** Yn fwy cyffredinol, mae'r cwestiwn o ddisodli ffrydiau ariannu'r UE ar draws ystod o feysydd polisi yn parhau i fod yn bwynt trafod rhwng llywodraethau'r DU.

**42.** Ychydig o gynnydd a ddisgwylir ar hyn tan Adolygiad o Wariant nesaf y DU.

### Cyd-ddibyniaethau

**43.** Bydd y fframweithiau yn ddibynnol ar ystod o ddatblygiadau sy'n anhysbys hyd yma, gan gynnwys:

- perthynas y DU yn y dyfodol â'r UE, gwledydd eraill, a blociau masnachu; a
- dyfodol yr Undeb ac unrhyw ddiwygiad i'r mecanweithiau ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol yn y DU.

### Gweithredu'r fframweithiau yn y dyfodol

**44.** Ar ôl eu sefydlu, bydd y fframweithiau'n cynnwys mecanweithiau ar gyfer cytuno ar ddiwygiadau ac i ddatrys anghydfodau, os byddant yn codi.

**45.** Yna caiff polisi a deddfwriaeth eu cyflwyno o dan y fframweithiau hyn.

**46.** Bydd angen i'r Cynulliad ystyried sut y mae'n monitro newidiadau o'r fath ac yn craffu ar achosion o ddatrys anghydfodau pan fyddant yn codi, a gweithredu polisiâu a deddfwriaeth o dan y fframweithiau hyn.

## 5. Sut beth fyddai'r gwaith craffu?

### Goruchwyllo'r rhaglen

**47.** Mae angen swyddogaeth oruchwyllo ganolog, i sicrhau bod meta-oblygiadau cydberthnasau lluosog a chymhleth yn cael eu deall. O dan y strwythur pwyllgorau presennol, gallai'r Pwyllgorau Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol neu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol fabwysiadu'r cyfrifoldeb hwn.

### Gwaith craffu manwl ar bolisi a deddfwriaeth

**48.** Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth unigol sydd yn y sefyllfa orau i graffu ar oblygiadau manwl sefydlu fframweithiau o fewn eu cylchoedd gwaith a chwestiynau cysylltiedig o ran penderfyniadau rhynglywodraethol.

**49.** Fel gyda chraffu ar waith yr UE, nid yw'r gwaith hwn yn rhannu'n gyfartal ar draws portffolios. O dan y strwythur pwyllgorau presennol, mae mwyafrif y fframweithiau yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

### Craffu anffurfiol a ffurfiol

**50.** O safbwynt craffu, mae'n werth ystyried y cydbwysedd rhwng craffu anffurfiol (h.y. yn cael ei adael yn gyfan gwbl i ddisgresiwn pwyllgorau) a chraffu ffurfiol (h.y. gyda gweithdrefnau sylfaenol ac o bosibl cytundeb rhwng y Cynulliad a Llywodraeth y Cynulliad i'w gefnogi).

**51.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn disgrifio proses pum cam ar gyfer datblygu fframweithiau.<sup>4</sup>

#### Y Pum Cam

---

##### Cam 1: Sefydlu egwyddorion a phrawf cysyniad

Statws	Wedi'i gwblhau
Amserlen	Hydref 2017 i Fawrth 2018

---

<sup>4</sup> Llywodraeth y DU, [Dadansoddiad o Fframweithiau Diwygiedig](#), Ebrill 2019

### Cam 2: Datblygu a mireinio'r rhaglen

Statws	Bron wedi'i gwblhau yn y rhan fwyaf o feysydd
Amserlen	Ebrill 2018 ymlaen

### Cam 3: Adolygu, ymgynghori a datblygu manwl

Statws	Dechreuwyd yn ddiweddar mewn rhai meysydd
Amserlen	Mawrth 2019 ymlaen

### Cam 4: Paratoi a gweithredu

Statws	Heb ddechrau
Amserlen	Hydref 2019 hyd at ddiwedd unrhyw gyfnod pontio h.y. diwedd 2020, 2021 neu 2022

### Cam 5: Trefniadau ôl-weithredu .h.y fframweithiau'n mynd yn fyw

Statws	Heb ddechrau
Amserlen	O ddiwedd y cyfnod pontio h.y. diwedd 2020, 2021 neu 2022

**52.** Mae'r rhan fwyaf o'r meysydd fframwaith bron â dod i ddiwedd yr ail gam neu ar fin dechrau yn y trydydd cam. Mae cam tri yn cynnwys: datblygu llywodraethu, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac, ar ddiwedd y cyfnod hwn, cytundeb Gweinidogol.

**53.** Dylai'r fframweithiau sydd yn nhrydydd cam y datblygiad gael eu datblygu ddigon i bwllgorau'r Cynulliad ystyried eu harchwilio gyda'r bwriad o ddylanwadu ar eu ffurf terfynol. Fodd bynnag, mae eu ffurf ar gyfer y gwaith craffu yn debygol o amrywio. Ymddengys mai ychydig o fudd a geir o ffurfioli trefniadau craffu ar gyfer y cam hwn gan ei fod yn debyg i gyhoeddi Papur Gwyrdd neu ymgynghoriad polisi. Ymgysylltiad cynnar fydd yn cynnig y cyfle gorau i ddylanwadu ar yr allbynnau terfynol.

**54.** Unwaith y bydd y fframweithiau'n symud ymlaen i'r pedwerydd cam, mae'r achos dros fecanwaith craffu mwy ffurfiol yn cryfhau.

**55.** Ar y cam hwn, bydd allbynnau wedi'u ffurfio'n llawn ar gael i'w harchwilio. Lle bo'r rhain yn ddeddfwriaethol eu natur, mae gan y Cynulliad weithdrefnau ar waith i reoli sut y cânt eu harchwilio.

**56.** Lle nad yw allbynnau'n ddeddfwriaethol (e.e. memorandwm cyd-ddealltwriaeth, concordat ac ati), nid oes gweithdrefn Cynulliad ar waith ar hyn o bryd.

**57.** O ystyried arwyddocâd posibl y cytundebau hyn, efallai y bydd y Cynulliad am ystyried yr achos dros waith craffu mwy ffurfiol. Gallai hyn fod drwy ddiwygio

Rheolau Sefydlog, ceisio cytundeb ysgrifenedig gyda Llywodraeth Cymru, neu gyfuniad o'r ddau.

**58.** Bydd achosion lle mae elfennau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i fframwaith. Os oes gweithdrefnau craffu cadarn ar waith ar gyfer y ddwy elfen, a bod camau cydgysylltu wedi'u cynnwys (e.e. rôl i'r Pwyllgor Busnes), yna dylai hyn fod yn bosibl.

**59.** Unwaith y bydd fframwaith ar waith, byddai monitro'r fframwaith a'i weithrediad unwaith eto yn fwy addas ar gyfer dull craffu llai ffurfiol - yn debyg i graffu ôl-ddeddfwriaethol neu waith dilynol ymchwiliad. Fel gyda'r enghreifftiau hyn, nid yw natur anffurfiol y gwaith craffu yn lleihau ei bwysigrwydd.

## Amwysedd

**60.** Mewn gwirionedd, gall datblygiadau polisi, deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth ac ymrwymadau rhynglywodraethol a wneir ffurfio rhan o Fframwaith heb i hyn gael ei gydnabod yn benodol.

**61.** Bydd dulliau o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyfleu hyn yn glir pan fydd datblygiadau o'r fath yn digwydd (neu wedi digwydd) yn gymorth sylweddol i dryloywder y broses hon. Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd esboniadol nodi pryd mae deddfwriaeth yn rhyngweithio â Fframwaith (neu'n cael ei gwneud o dan y Fframwaith hwnnw).

## Perthnasau rhyngseneddol

**62.** Mae'r fframweithiau'n cynrychioli haen newydd o lywodraethu y DU gyfan. Mae craffu ar bob un o lywodraethau eu deddfwrfeydd priodol yn hanfodol. Fodd bynnag, gallai cydweithredu ar draws deddfwrfeydd gynnog cydlynad gwell o ran ymdrechion a sicrhau bod pob siambr yn elwa o waith y gweddill.

**63.** Yn yr un modd â strwythur y mecanweithiau rhynglywodraethol, a'r cynigion ar gyfer craffu ar bwyllgorau'r Cynulliad, ymddengys bod angen ystyried mecanwaith goruchwyllo canolog i fonitro meta-oblygiadau'r haen newydd hon o lywodraethu yn y DU a chraffu mwy penodol, sy'n canolbwyntio ar bwnc penodol ar lefel portffolio.

**64.** Mae'r Fforwm Rhyng-seneddol ar Brexit wedi bod yn ystyried y cydbwysedd hwn ac efallai y bydd pwyllgorau eraill y Cynulliad am ddechrau ystyried eu perthynas â deddfwrfeydd eraill y DU o gofio'r angen posibl am weithio rhyngseneddol agosach i fynd i'r afael â'r her craffu sy'n deillio o gyflwyno'r fframweithiau.

## 6. Amserlenni

- 65.** Mae angen i fframweithiau fod ar waith **erbyn diwedd unrhyw gyfnod pontio**.
- 66.** O dan y Cytundeb Ymadael fel y'i drafftwyd, mae hyn **erbyn diwedd 2020**, er y gellid ymestyn y cyfnod pontio unwaith gan flwyddyn neu ddwy arall. Os bydd senario "dim cytundeb", mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd fframweithiau sylfaenol ar waith o ganlyniad i'r rhaglen waith i gadw a chywiro cyfraith yr UE. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai gwaith i ddatblygu fframweithiau yn cyflymu mewn rhai meysydd o dan senario "dim bargaen".
- 67.** Mae'r fframweithiau'n symud ymlaen ar gyflymderau gwahanol. Fel gydag unrhyw ymyriad polisi, **mae ymgysylltu mor gynnar â phosibl yn cynnig y cyfle gorau i ddylanwadu**. Mae rhai o'r fframweithiau eisoes yn ymddangos ar gyfer ymgynghoriad. Gallai hyn roi cyfle i bwyllgorau ymgyfarwyddo â'r rhaglen a'u paratoi ar gyfer gwaith craffu mwy ffurfiol yn y dyfodol.
- 68.** Os ystyrir bod **newidiadau gweithdrefnol** yn ddymunol, bydd angen gwneud y rhain mewn pryd i'r fframweithiau cyntaf gyrraedd pedwerydd cam eu dilyniant. Gallai hyn fod **rywbryd yn hydref 2019**.

# Atodiad A: Rhestr o feysydd polisi a ystyriwyd ar gyfer fframweithiau sy'n ymwneud â Chymru

Lluniwyd y rhestr hon o'r meysydd fframwaith a nodwyd ac a gyhoeddwyd yn y **Dadansoddiad o Fframweithiau Diwygiedig** ym mis Ebrill 2019

Meysydd polisi lle nad oes angen gweithredu ymhellach i greu fframwaith cyffredin, a bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn parhau i gydweithio

1. Dal a storio carbon
2. Cyfraith amgylcheddol sy'n ymwneud â diwydiannau ynni
3. Trwyddedu hydrocarbonau ar y tir
4. Cyfarwyddeb ynni adnewyddadwy
5. Cyfraith amgylcheddol sy'n ymwneud â chydysyniadau cynllunio
6. Georwystro
7. Hawliau pleidleisio a rheolau ymgeisyddiaeth ar gyfer dinasyddion yr UE mewn etholiadau llywodraeth leol
8. Rheoli perygl llifogydd
9. Rheoli gwastraff o ddiwydiannau echdynnol
10. Ansawdd dŵr
11. Adnoddau dŵr
12. Coedwigaeth (domestig)
13. Defnydd tir
14. Cyfarwyddebau sŵn
15. Hedfan - gwneud iawn am lwybrau awyr Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyhoeddus

16. Rheolau masnachfreinio bysiau
17. Systemau tollau ffyrdd electronig
18. Elfennau porthladdoedd (materion amgylchedd morol)
19. Morwrol - contractau/rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus, a chymorth ariannol ar gyfer gwasanaethau llongau sy'n dechrau ac yn gorffen o fewn yr Alban/i mewn i Gymru, allan o Gymru ac o'i mewn.
20. Morwrol - gwasanaethau porthladdoedd a chyfleusterau derbyn porthladdoedd, gan gynnwys ar gyfer gwastraff a gynhrychir gan longau
21. Rheoli diogelwch seilwaith ffyrdd
22. Codi tâl ar gerbydau nwyddau trwm
23. Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd
24. Gweithredu hawliau gofal iechyd trawsffiniol i driniaeth ac ad-daliad
25. Deddfwriaeth triniaeth gyfartal
26. Cyfarwyddeb Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
27. Cyfarwyddeb perfformiad ynni adeiladau

### **Meysydd polisi lle gallai fod angen cytundebau fframwaith anneddfwriaethol**

1. Effeithlonrwydd defnyddio ynni
2. Sylweddau ymbelydrol
3. Caffael cyhoeddus
4. Ystadegau
5. Ansawdd aer
6. Bioamrywiaeth - rhannu mynediad a buddiannau adnoddau genetig
7. Amgylchedd morol
8. Safonau seilwaith data gofodol
9. Yr amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth

10. Rheoli gwastraff
11. Systemau trafndiaeth deallus
12. Elfennau o reoleiddio tybaco a chynhyrchion cysylltiedig
13. Arfer labordy da
14. Honiadau, cyfansoddiad a labelu iechyd maeth
15. Diogelwch ac ansawdd gwaed
16. Organau
17. Iechyd y cyhoedd (bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd) (system hysbysu ar gyfer Zika, ffliw pandemig ac ati)
18. Meinweoedd a chelloedd (ar wahân i embryonau a gametau)
19. Rheoli peryglon damweiniau mawr
20. Defnydd micro-organebau a addaswyd yn enetig (h.y. rheolau ar ddiogelu iechyd dynol a'r amgylchedd yn ystod y datblygiad)
21. Cynllunio ar gyfer sylweddau peryglus
22. Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol

## Meysydd polisi lle gallai fod angen deddfwriaeth yn y dyfodol

1. Gweithredu System Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS)
2. Cyd-gydnabod cymwysterau proffesiynol (MRPQ)
3. Cyfarwyddeb Gwasanaethau
4. Cymorth amaethyddol
5. Amaethyddiaeth - Marchnata ac amaethu GMO
6. Amaethyddiaeth - Zootech
7. Rheoli a chefnogi pysgodfeydd
8. Sylweddau sy'n disbyddu'r osôn a nwyon wedi'u fflworeiddio
9. Iechyd anifeiliaid a'r gallu i'w holrhain



10. Lles anifeiliaid
11. Cemegion
12. Pecynnu a chynnyrch gwastraff
13. Plaleiddiaid
14. Iechyd planhigion, hadau a deunydd lluosogi
15. Safonau cyfansoddi bwyd
16. Labelu bwyd
17. Rheoliad Cemegion (gan gynnwys plaladdwyr)
18. Amaethyddiaeth - ffermio organig
19. Amaethyddiaeth - rheoliadau gwrtait
20. Gofal Iechyd Cyfatebol
21. Diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid a chyfraith hylendid